❖ MYFYRDOD AR GYFER DYDD NADOLIG

Yr ydym yn cynnau'r gannwyll hon yn y tywyllwch gan lawenhau am ddyfodiad Iesu, y goleuni na all y tywyllwch ei drechu. Gweddïwn, wrth i'r tywyllwch symud ymaith a'r goleuni dorri trwyddo, y bydd dy air ymgnawdoledig yn rhoi'r nerth i ni i fyw mewn gobaith a chyda disgwyliadau fod cyfiawnder ar fin dod.

Darllen – Ioan 1:1–4

Wrth i'r hen stori gael ei hadrodd,
mae'r byd dioddefus yn llawenhau,
a gwyrth bywyd yn cael ei eni.
Dyma'r awr i obeithio
am gariad mor rymus
na all tywyllwch ddiffodd ei addewid.
Mae'r efengyl yn datgan yn glir
mai'r rhai sydd ar gyrion eithaf cymdeithas
gaiff dystio i ddyfodiad y Crist.
Helpa ni i sefyll gyda'r tlawd,
y newynog a phobl y cyrion heddiw;
ysbrydola ni i weithio
er mwyn llawenhau gyda hwy
wrth i ni gyd-dystio i'th gariad bregus
yn ymlid y cysgodion.
Ti, sydd yn wir oleuni'r byd.

Gweddïau Cymorth Cristnogol